Cyngor Sir Powys

Gwahoddir Datganiadau O Ddiddordeb Mewn Bod Yn Aelod O'r Fforwm

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Powys yn y broses o benodi aelodau i Fforwm Mynediad Lleol Powys sy'n gweithredu ar ran tair ardal Ranbarthol Powys, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Nid yw hyn yn cynnwys yr ardal honno o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd 15 aelod ar y Fforwm.

Swyddogaeth y Fforwm fydd i gynghori Cyngor Sir Powys, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill, ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y Fforwm yn cyfarfod rhwng dau i bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n bwysig bod yr aelodau'n gallu mynychu'r holl gyfarfodydd gan na fydd dirprwyon yn cael eu caniatáu. Mae'r rhain yn swyddi di-dâl ond bydd aelodau'r Fforwm yn medru hawlio costau rhesymol.

Mae'r Cyngor yn chwilio am ymgeiswyr a fydd yn sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau defnyddwyr hawliau tramwy lleol neu hawliau mynediad, a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd â mynediad neu dir lle mae hawliau tramwy lleol yn bodoli. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau cydbwysedd teg rhwng pobl o wahanol hil, oedran, rhyw, neu gydag anableddau a nodweddion eraill.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cael eu hystyried i fod yn aelod gael rhagor o wybodaeth gan: Mr S Mackintosh, Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Powys, Cyngor Sir Powys, Pumffordd, Llandrindod Rhif ffôn: 01597 827583 neu e-bost stuartm@powys.gov.uk

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: 12 Hydref 2009

Powys County Council

Invitation For Expressions Of Interest In Becoming A Member Of The Forum

Powys County Council is currently in the process of appointing a Powys Local Access Forums, covering the three Shire areas of Powys excluding that area within the Brecon Beacons National Park as required under the Countryside & Rights of Way Act 2000. The Forum will consist of 15 members.

The function of the Forum will be to advise the Powys County Council, the Countryside Council for Wales, the Welsh Assembly Government and others, as to the improvement of public access to land in the area, for the purposes of open-air recreation and the enjoyment of the area.

The Forum will meet between two and four times a year. It is important that members can attend all meetings, as deputies will not be permitted. These are unpaid positions but Forum members will be able to claim reasonable expenses.

The Council seeks applicants which will achieve a reasonable balance between the interests of users of local rights of way or the rights of access and of owners or occupiers of access land or land over which local rights of way subsist and also seeks to ensure a fair balance between persons of different genders, races, ages, disabilities and other characteristics.

Any person wishing to be considered for membership can obtain further details from: Mr. S Mackintosh, Secretary to the Powys LAF, Powys County Council, Fiveways, Llandrindod Wells Telephone 01597 827583 or Email stuartm@powys.gov.uk

Closing date for receipt of applications: 12 October 2009